


FIRST STAGES
IN WELSH



BBC BROADCASTS TO SCHOOLS

AUTUMN TERM 1952

PRICE 6D

FIRST STAGES IN WELSH



*A series of broadcasts provided by the BBC for
the School Broadcasting Council
for Wales*



WELSH HOME SERVICE

(340.1 metres)



Wednesdays, 2.00–2.20
24 September–3 December

TYMOR YR HYDREF
1952



Y DYN DIEITHR
DARLLEDIAD 1–24 MEDI

1: *Cnoc ar y drws yn y nos*

Yn y stori hon mae teulu bach, sef:

Mr a Mrs Ted Edwards
Gwen, y ferch
Dafydd, y mab

Mae darlun o'r teulu ar y tudalen arall.

Mae'r teulu yn byw yn *agos* i *hen ffatri wla'n*. Mae'r ffatri yn *wag*.

Mae *dyn dieithr* yn y stori. Jonathan Hughes yw enw'r dyn dieithr.
Mae ef wedi bod yn byw yn Affrica am lawer o flynyddoedd. Mae ef
wedi gwneud ei *ffortiwn* yn Affrica, ac yn awr mae ef yn dod yn ôl
i Gymru.

Un nos, mae Mr a Mrs Edwards a'r plant yn y tŷ. Maent yn
clywed *cnoc ar y drws*. Pwy sydd yno? Y dyn dieithr sydd yno.
Nid yw ef yn *gallu* siarad. Mae *rhywun* wedi *clwyfo*'r dyn.

Pwy sydd wedi *clwyfo*'r dyn dieithr?

GEIRFA (vocabulary):

agos—near

hen ffatri wla'n—an old woollen factory

gwag—empty

dyn dieithr—stranger

Mae ef wedi bod yn byw—*He has lived, He has been living.*

am lawer o flynyddoedd—for many years

ffortiwn—fortune

gallu—to be able to

rhywun—someone

clwyfo—to wound

papur newydd—newspaper

aur—gold; *ysbyty*—hospital

lladron—thieves; un lleidr, llawer o ladron

HAUL YR HYDREF

{:d .,d | d :s, :m .,m | m :d :d .m | s :f :m }

Da-ew haul ar ben y my-nydd, Haul yr hyd-ref ar

{r :-:r | r :r.m:f.r | m :d :d .m | r :d :t, | d :-||

fryn, Ar fryn haul yr- hyd-ref, Haul yr hyd-ref ar fryn.

2: Ni chawn chwarae ar y mynydd,
Ni chawn chwarae yn awr,
Yn awr ni chawn chwarae,
Ni chawn chwarae yn awr.

3: Rhaid in weithio'n galed, galed,
Yn yr ysgol bob dydd,
Bob dydd yn yr ysgol,
Yn yr ysgol bob dydd.

4: Dysgu darllen a sgrifennu,
A gwneud symiau, siŵr iawn,
Siŵr iawn, a gwneud symiau,
A gwneud symiau, siŵr iawn.

5: Ond pan ddaw dydd Sadwrn heibio,
Fe gawn chwarae yn rhydd,
Yn rhydd fe gawn chwarae,
Fe gawn chwarae yn rhydd.

6: Yn yr haul ar ben y mynydd,
Haul yr hydref ar fryn,
Ar fryn, haul yr hydref,
Haul yr hydref ar fryn.



BETH SYDD YN Y BELT?

Edrychwch ar y darlun cyntaf, ac atebwch y cwestiynau hyn:

- 1: Pwy sydd yn y darlun?
- 2: A yw Gwen a Dafydd yno?
- 3: Beth sydd ar y ford?
- 4: Faint o bobl sydd yn y darlun?
- 5: A oes anifail yno?

DARLLEDIAD 2-1 HYDREF

2: Golau yn yr hen ffatri

Mae'r dyn dieithr yn aros yn nhŷ Mr a Mrs Ted Edwards. Nid yw ef yn mynd i'r ysbyty. Mae Mrs Edwards yn *gofalu amdano*, ac mae Gwen a Dafydd yn eistedd wrth ochr ei wely, ac yn siarad ag ef. Mae'r doctor yn dod i weld y dyn. Hefyd, mae plismon yn *gofyn* cwestiynau iddo. Mae ef yn ateb cwestiynau'r plismon.

PLISMON: Bore da. 'Rydych yn well heddiw, 'rwy'n gweld.

JONATHAN HUGHES: O ydwyf, 'rwyf i'n well heddiw. Mae Mrs Edwards yn gofalu amdanaf i'n dda iawn.

PLISMON: Wel nawr. Rhaid imi ofyn cwestiynau i chi, os gwelwch chi'n dda, syr.

JONATHAN HUGHES: O'r gorau, sarjant.



GOLAU YN Y FFATRI

PLISMON: Beth yw eich enw?
 JONATHAN HUGHES: Jonathan Hughes yw fy enw.
 PLISMON: Jonathan Hughes. Ie. Ble'r ych chi'n byw, Mr Hughes?
 JONATHAN HUGHES: 'Rwyf i wedi bod yn byw yn Affrica. 'Rwyf i wedi bod yn gweithio yno, mewn gwaith aur.
 PLISMON: Hm! Gwaith aur, ie fe?
 JONATHAN HUGHES: Ie, fy ngwaith i. 'Rwyf i'n ddyn cyfoethog. 'Rwyf i wedi dod 'nôl i Gymru, ac 'rwyf i'n mynd i fyw yma.
 PLISMON: 'Ydych chi'n mynd 'nôl i Affrica?
 JONATHAN HUGHES: Nac ydyf. 'Rwyf i wedi gwerthu'r gwaith aur, ac yn awr mae gennyf i lawer o arian. Hefyd mae gennyf i aur.
 PLISMON: Ble mae'r aur?
 JONATHAN HUGHES: Dyma fe. 'Rwyf i'n cario'r aur mewn belt am fy nghanol.
 PLISMON: Mae rhywun wedi'ch clwyfo chi, Mr Hughes. Pwy? 'Ydych chi'n gwybod?
 JONATHAN HUGHES: Lladron, sarjant. Ie, lladron, yn siŵr ichi.

GEIRFA:
 golau—light
 aros—to stay
 gofalu amdano—to take care of him, to look after him
 gofyn—to ask
 yn well—better

rhaid imi—I must; o'r gorau—very well, all right
 gweithio—to work; gwaith—work
 gwaith aur—gold mine; cyfoethog—rich; gwerthu—to sell
 am fy nghanol—around my middle, around my waist

Dysgwch hyn:

Y BACHGEN: 'Rwyf i yn yr ysgol. Mae gennyf i lyfr ysgrifennu ar y ddesg. Rhaid imi ofalu amdano.
 YR ATHRO: 'Rwyf ti yn yr ysgol. Mae gennyf ti lyfr ysgrifennu ar y ddesg. Rhaid iti ofalu amdano.

DARLLEDIAD 3-8 HYDREF

3: Y dyn dieithr ar goll

Mae'r lladron yn yr hen ffatri. Mae Gwen a Dafydd yn gweld golau yno yn y nos. Maent yn dweud eu stori wrth y plismon.
 DAFYDD: Dewch, sarjant, rhaid inni ddal y lladron.
 GWEN: Ie, brysiwch!
 SARJANT: O'r gorau, o'r gorau. Nawr arhoswch, 'wnwch chi?
 DAFYDD: Aros, sarjant? I beth?
 SARJANT: Rhaid imi glywed y stori, Dafydd bach.
 GWEN: Ond 'rydych yn gwybod y stori, sarjant—
 SARJANT: Rhaid ichi ddweud y stori eto. Nawr! Rhaid imi ysgrifennu'r stori yn fy llyfr. 'Ydych chi'n barod?
 GWEN: Ydym, sarjant, 'rydym ni'n barod.
 DAFYDD: Ond brysiwch. Mae'r lladron yn mynd i ffwrdd.
 SARJANT: O, nac ydynt, Dafydd. Mae'r lladron yn mynd i aros yma.
 DAFYDD: Ond sut—
 SARJANT: Gwrandewch 'nawr. A ydyw'r dyn dieithr yn eich tŷ chi?
 GWEN: Ydyw, wrth gwrs. Mae Mam yn gofalu amdano.
 SARJANT: O'r gorau. A oes ganddo aur?
 DAFYDD: Oes.
 SARJANT: Ble mae'r aur?
 GWEN: Mae'r aur mewn belt am ei ganol.
 SARJANT: O'r gorau. Wel 'nawr, mae'r lladron yn aros yma i ddwyn yr aur. Nid yw'r lladron yn mynd i ffwrdd heddiw, O, nac ydynt. 'Nawr, dewch! Dywedwch eich stori. Rhaid imi ysgrifennu'r stori yn y llyfr bach yma. Fe fydd yr Inspector yn darllen y llyfr hwn, 'welwch chi.

HWYLIO

{ :s, | m :-:r:d | r :d :l, | s, :m, :- | - : :s, }
 Mae gwle-dyddym-hell dros y mor-oedd, Mae

{ | m :-:r:d | d :t, :d | r :-: | -:-:s, | m :-:r:d }
 gwle-dyddym-hell dros y lli, Mae gwle-dyddym-

{ | r :d :l, | s, :m, :- | - : :s, | l, :r :d | t, :l, :t, }
 hell dros y mor-oedd, Ac y-no rywddydd yr awn

{ | d :-: | -:-: | s, :-: | d :-: | l, :-: | d :-: }
 ni. Hwyl - io, hwyl - io, cawn

{ | t, :t, :t, | t, :l, :t, | d :-: | r | m :-: | s, :-: | d :-: }
 hwyl-io dros wy-neb y lli, Hwyl - io,

{ | l, :-: | -:-: | r :-: | d | t, :t, :t, | t, :l, :t, | d :-: | -:-: }
 hwyl - io, cawn hwyl-io dros wy-neb y lli.

2: Cawn fynd dros y tonnau yn gyflym,
 I Ffrainc ac i'r Eidal a Sbaen,
 Cawn fynd dros y tonnau yn gyflym,
 A hwyllo yn ôl ac ymlaen.
Cytgan—Hwyllo, hwyllo, etc.

3: Ymhell ac ymhell dros y tonnau,
 Draw, draw i wlad Affrica fawr,
 Ymhell ac ymhell dros y tonnau,
 Heb gofio am Gymru yn awr.
Cytgan—Hwyllo, hwyllo, etc.

GEIRFA:

dal—to catch; brysiwch!—hurry!; bryσιο—to hurry
 'Ydych chi'n barod?—Are you ready?
 mynd i ffwrdd—to go away; dwyn—to steal
 Fe fydd yr Inspector yn darllen—The Inspector will be reading.



BETH Y MAE DAFYDD YN EI WNEUD?

Dywedwch hyn ar ôl gwranddo ar y stori:

YR ATHRO: Rhaid ichi frysio. Fe fydd y bws yn dod mewn pum munud.
 Y PLANT: O'r gorau. Rhaid inni ddal y bws.
 YR ATHRO: Ble mae Dafydd?
 Y PLANT: Dacw fe yn yr iard. Mae ef yn mynd i ffwrdd.
 YR ATHRO: A oes ganddo lyfr?
 Y PLANT: Oes, mae ganddo ddau lyfr ysgrifennu.

DARLLEDIAD 4-15 HYDREF

4: Diwedd y stori

Nid yw'r dyn dieithr yn nhŷ Mr a Mrs Edwards yn awr. Mae'r lladron wedi bod yn y tŷ, ac maent wedi mynd â'r dyn dieithr i'r hen ffatri. Mae ef yn garcharor yn yr hen ffatri. Ond mae Gwen a Dafydd yn anfon neges at y dyn. Maent yn saethu'r neges drwy ffenestr y ffatri. Sut? Wel, â bwa a saeth.

Mae'r polis yn dod i'r hen ffatri i ddal y lladron, ond mae'r lladron wedi mynd i ffwrdd.

A yw'r polis yn dal y lladron? A yw Mr a Mrs Edwards a Gwen a Dafydd yn cael ffortiwn? Fe gewch glywed yn y stori.



DAL Y LLADRON

GEIRFA:

mynd â—to take
 carcharor—prisoner
 anfon neges—to send a message
 saethu—to shoot
 â bwa a saeth—with a bow and arrow
 car modur—motor car

Dywedwch hyn:

Mae ef yn mynd i'r ysgol.
 Mae ef yn mynd â llyfr i'r ysgol.
 Mae ef wedi mynd â llyfr i'r ysgol.
 Nid yw hi'n dod i'r ysgol.
 Nid yw hi'n dod â llyfr i'r ysgol.
 Nid yw hi wedi dod â llyfr i'r ysgol.

Darllenwch y paragraff hwn, ar ôl gwranddo ar y stori:

Mae dyn cyfoethog yn dod yn ôl i Gymru o Affrica. Mae ganddo ef lawer o arian ac aur, ac mae lladron yn gwybod hynny. Mae'r lladron yn clwyfo'r dyn ac mae ef yn aros gyda theulu bach. Mae'r teulu yn byw yn agos i hen ffatri wllân. Ond mae'r lladron yn mynd i'r hen ffatri, ac yn aros yno. Maent yn mynd â'r dyn i'r hen ffatri, ac mae ef yn garcharor yno. Hefyd mae'r lladron yn mynd â'r aur. Ond mae'r polis yn mynd i'r dref yn eu car modur. Maent yn dal y lladron.



BILI YN CURO'R DRWM. DYNA SŴN!

DARLLEDIAD 5-22 HYDREF

Bili a'r Drwm

Yn y stori hon, fe gewch glywed am fachgen o'r enw Bili. Mae Bili'n *gofyn* am feisicl. Nid yw ei fam a'i dad yn *fodlon*. Mae Bili yn siarad â'i fam a'i dad.

BILI: A gaf i feisicl, os gwelwch yn dda?
 TAD: Na chei, Bili.
 BILI: Mae gan Tom Jones feisicl.
 MAM: *Bydd yn ddistaw* 'nawr, Bili bach.
 BILI: Ac mae gan Jaci Tomos feisicl hefyd.
 TAD: O'r gorau, 'machgen i—ond nid wyt ti'n cael beisicl 'nawr.
 BILI: O—O nhad!
 MAM: *Paid â chrio*, Bili bach.
 BILI: Rhaid imi gael beisicl, ar unwaith.
 TAD: Bili!
 MAM: Bydd yn ddistaw, mae dy dad yn darllen y papur.
 TAD: Ie, bydd yn ddistaw, Bili. Dos allan i chwarae.
 BILI: O—o'r gorau.
 TAD: Tyrd yma.
 BILI: Beth sy'n bod?
 TAD: I ble 'rwy't ti'n mynd?
 BILI: I'r *Clwb Ieuencid*.
 MAM: Bydd yn fachgen da, ynteu.

Y BAND

[:s, .,s, | d :d | r :s, | d :-|:s, .,s, | d :d | r :s,]
 Cly-waf sw'n y sein-dorf fawr, Trwy'r ys-tryd yn dod i
 [d :-|:m .,d | s :m .,d | s :m .,d | s :-|:s, .,s]
 lawr, Ta ra ra, ta ra ra, ta ra ra. Ut-gyrrn
 [f :r | m :d | r :-|:s, .,s | f :r | m :d | r :-|:s, .,s,]
 ar-ian, gyrrn o bres, Da-cwhwy yn loy-w res, Fyth yn
 [d :d | m :d | f :-|:l :d', l | s :m .,d | r :s, .,s, | d :-|:]
 dod yn nes, yn nes, — Ta ra ra, ta ra ra, ta ra ra.

- 2: Dacw'r drymiwr mawr ymlaen,
 Clywaf sw'n ei ddrwm yn blaen,
 Ta-ra-ra, ta-ra-ra, ta-ra-ra.
 Fe rown innau unrhyw swm
 Am gael mynd i chwarae'r drwm,
 A mynd draw o gwm i gwm,
 Ta-ra-ra, ta-ra-ra, ta-ra-ra.

GEIRFA:

gofyn am—to ask for
 yn fodlon—willing
 bydd yn ddistaw—be quiet
 paid â chrio—don't cry
 Clwb Ieuenctid—Youth Club
 arweinydd—leader
 band pres—brass band
 mynd ar gefn beisicl—to ride a bicycle
 mynd ar gefn y beisicl—to ride the bicycle
 mynd ar gefn ei feisicl—to ride his bicycle

Dysgwch hyn:

A gaf i feisicl, os gwelwch yn dda?
 Na chei. Paid â gofyn eto.



NEDI YN TYNNU'R LLWYTH

DARLLEDIAD 6-29 HYDREF

Yr Asyn

Yn y stori hon, fe gewch glywed am asyn bach. Nedi yw ei enw. Mae ef yn byw ar fferm, ac mae ef yn gweithio'n galed. Ond nid yw'r ffermwr yn garedig wrtho. Mae Nedi'n tynnu llwyth mawr o'r fferm i'r dref. Yna, rhaid iddo dynnu llwyth yn ôl i'r fferm. Mae ef yn cario glo o'r dref i'r fferm.

Un dydd, mae'r asyn bach yn chwarae tric. Mae ef yn gorwedd ar y llawr. Nid yw ef wedi marw, ond mae Jac y gwas yn credu hynny.

GEIRFA:

gweithio'n galed—to work hard
 yn garedig wrtho—kind to him
 tynnu llwyth—to pull a load
 tref—town
 cario glo—to carry coal
 gorwedd—to lie
 llawr—ground, floor
 wedi marw—dead
 gwas—servant; gwas fferm—farm servant
 credu—to believe

YR ASYN A FU FARW

ARAF
 { :d | m : -r | m : s | s : - | f : m | r : r | m : -r | d : - | - : d }
 Yr as - yn a fu fa - rw wrth gar - io glo i Fflint, Fe
 { | m : -r | m : s | s : - | f : m | r : r | m : r | d : - | - : m | }
 'nill - odd mewn saith mlyn - edd Dros bed - war ug - ain punt. Dan
 CYFLYM
 { | s : s | l : l | s : , l | s : , f : m | , f | s : m }
 ga - nu wec ffal - di - ral - di - ral - di - ral, Dan
 { | s : s | l : l | s : , l | s : , f : m | , f | s : d | }
 ga - nu wec ffal di - ral - di - ral - di - ral. Yr
 { | m : -r | m : s | s : - | f : m | r : r | m : -r | d : - | - | }
 as - yn a fu fa - rw wrth gar - io glo i Fflint.

- 2: Mae'r asyn bach yn gorwedd
 Yn llonydd ar y llawr,
 A Jac yn edrych arno,
 Gan wylo dagrau mawr.
- 3: Medd Jac, gan edrych arno,
 'R hen asyn druan llwm,
 Ni fydd yn rhaid it eto
 Fyth dynnu llwyth mor drwm.'
- 4: Mae Jac yn cerdded ymaith
 Hyd lwybr cul y coed,
 A'r asyn bach yn codi
 Yn gryf ar bedwar troed.
- 5: 'Ffarwel am byth i'r siafftau,
 Ffarwel i gario glo.
 Caf fynd yn rhydd,' medd Nedi,
 'Ar fryniau gwyrdd y fro.'



'FFARWEL I GARIO GLO!'

Darllenwch y brawddegau hyn:

- 1: 'Mae'r ffermwr yn garedig wrthyf,' ebe Jac y gwas.
- 2: Gwas da yw Jac, ac mae'r ffermwr yn garedig wrtho.
- 3: Nid yw Dafydd yn fachgen da; rhaid iddo weithio'n galed.
- 4: Nid yw Gwen yn ferch dda; rhaid iddi weithio'n galed.

PANTOMEIM ALADIN

DARLLEDIAD 7-5 TACHWEDD

1: Gadewch inni berfformio rhywbeth

Stori yw hon am *gwmmi* bach o *actorion*. Maent yn mynd i *berfformio* pantomeim. Enw'r pantomeim yw Aladin. Mae siarad a chanu mewn pantomeim. Dyma'r bobl sy'n siarad a chanu yn y stori, sef stori Aladin a'i lamp.

Aladin - bachgen tlawd
 Y *Widw* Twanci - mam Aladin
 Ela - merch y *brenin*
 Abanasar - *ewythr* Aladin, a *swynwr* drwg
 Ysbryd y lamp
 Ysbryd y *fodrwy*

GEIRFA:

cwmni—company; actorion—actors; actio—to act
 perfformio—to perform; widw—widow; brenin—king
 ewythr—uncle; swynwr—magician
 ysbryd—spirit, genie; modrwy—ring
 chwilio am waith—to look for work; ennill arian—to earn money

CÂN Y WIDW TWANCI

{:d .,d |d :s, :m .,m |m :d :d .m |s :-s :f .m }

F'e-nw i yw'r Wi-dw Twan-ci, 'Rwyf i'n gweith-io'n ga-led

{r :-:r .,m |f :f :m .,r |m :d :d .m |r :s, :t, .,r }

iawn, Gol-chi dill-ad, smwdd-io dill-ad, Hwyr a bo-re a phryn-

{d :-:d .,d |d :s, :m .,m |m :d :d .m |s :-s :f .m }

hawn. Mam A-la-din, mam A-la-din, Mam A-la-din yd-wyf

{r :-:r .,m |f :f :m .,r |m :d :d .m |r :-s, :t, .,r |d :-||

i, I-e, fi yw mam A-la-din, Mam A-la-din yd-wyf i.

- 2: Bydd fy mab yn mynd i chwarae
 Yn y stryd bob dydd a nos;
 Nid yw'n gwrando ar fy ngeiriau,
 'Dos i weithio, fachgen, dos.'
 Cytgan—Mam Aladin, mam Aladin, etc.
- 3: Ef, yn wir, yw f'unig blentyn,
 Nid oes ganddo chwaer na brawd,
 Ac mae'n hoff o aur ac arian,
 Nid yw'n hoffi bod yn dlawd.
 Cytgan—Mam Aladin, mam Aladin, etc.
- 4: Pryd y daw e' 'nôl i'm helpu?
 D'wedwch wrthyf, ble mae ef?
 Cewch ei weld, 'rwy'n siŵr, yn chwarae,
 Chwarae draw ar stryd y dref.
 Cytgan—Mam Aladin, mam Aladin, etc.



'GADEWCH INNI BERFFORMIO RHYWBETH'

Ar ôl gwrando ar y stori, dywedwch hyn:

- Y WIDW TWANCI: Dyma ti, Aladin! Ble'r wyt ti wedi bod?
 ALADIN: Yn y dref, Mam.
 Y WIDW TWANCI: Beth 'roeddet ti'n ei wneud yn y dref?
 ALADIN: O—chwarae, a chwilio am waith.
 Y WIDW TWANCI: Chwilio am waith, yn wir! Pa waith?
 ALADIN: O—'wn i ddim.
 Y WIDW TWANCI: Twt, twt! Aladin y bachgen mawr yn chwarae yn y stryd.
 ALADIN: Ond, Mam—
 Y WIDW TWANCI: A dyma fi, dy fam, yn gweithio'n galed.
 ALADIN: Ond, Mam—
 Y WIDW TWANCI: 'Rwy'n golchi ac yn smwddio ddydd a nos i ennill arian, a dyma ti'n chwarae drwy'r dydd.
 ALADIN: Ond, Mam! Gwrandewch arna' i.
 Y WIDW TWANCI: O'r gorau. Beth sy'n bod?
 ALADIN: 'Rwyf i wedi gweld merch y brenin.
 Y WIDW TWANCI: Diar annwyl! Ble?
 ALADIN: Yn y stryd.
 Y WIDW TWANCI: Beth? Merch y brenin yn y stryd?
 ALADIN: Ie, Mam, ac 'rwyf i wedi siarad â hi.
 Y WIDW TWANCI: Bobol annwyl!
 ALADIN: A gwrandewch. 'Rwyf i'n mynd i briodi merch y brenin.
 Y WIDW TWANCI (yn chwerthin): Priodi merch y brenin? Ti? Aladin, y bachgen tlawd, mab y Widw Twanci?—Wyt, siŵr iawn!



BETH MAE'R SWYNWR YN EI WNEUD?

DARLLEDIAD 8-12 TACHWEDD

2: *Y practis cyntaf*

Mae'r actorion yn dysgu eu gwaith. Maent yn gweithio'n galed ac yn awr maent yn dod i'r practis cyntaf. Mr Jones, yr ysgolfeistr, sydd yn dysgu'r actorion. Maent yn gofyn am help, ac mae ef yn fodlon helpu.

'Nawr, dewch! 'Ydych chi'n barod?' medd Mr Jones, ac mae'r practis yn dechrau.

GEIRFA:

ysgolfeistr—schoolmaster
 dechrau—to begin
 lamp ryfeddol—wonderful lamp
 Mae'r ogof yn agor—The cave is opening.
 Mae'r ogof yn cau—The cave is closing.
 Mae'r ogof wedi agor—The cave has opened.
 Mae'r ogof wedi cau—The cave has closed.
 rhwbio'r lamp—to rub the lamp
 rhwbio'r fodrwy—to rub the ring
 gemau—precious stones
 chwilio amdanat ti—to look for you
 Beth arall?—What else?

CÂN ABANASAR

{ .s. | m. .s. :s. .s. | f. .l. :l. .l. | t. .t. :l. .t. | d .r :m }

Mae try-sor yn yr og-of ddu, A lamp ry-fedd-ol y-no sy.

{ m. .s. :s. .s. | f. .l. :l. .l. | t. .t. :l. .t. | d .s. :d }

Ble mae A-la-din? Rhaid i'r sgamp Ddod y-no nawr i gael y lamp.

CYTGAN

{ s. .s. :s. | l. .l. :l. | t. .t. .t. :l. .t. | d .r :m }

Ha ha ha, hi hi hi, Fisydd yn gwy-bod ble mae hi.

{ s. .s. :s. | l. .l. :l. | t. .t. .t. :l. .t. | d .s. :d ||

Ha ha ha, hi hi hi, Draw yn y my-nydd, 'wel-wch chi.

2: 'Rwyf i yn swynwr medrus iawn,
 Mae triciau yn fy mhen yn llawn.
 Ble mae Aladin? Awn am dramp
 Ein dau yn awr i gael y lamp.

Cytgan—

Ha ha ha, hi hi hi, etc.

3: Fe gerddwn draw i'r mynydd mawr,
 Ymlaen am dair neu bedair awr.
 Ble mae Aladin? Dyna'r gamp
 Fydd mynd i'r ogof am y lamp.

Cytgan—

Ha ha ha, hi hi hi, etc.

Geiriau Abanasar wrth agor a chau'r ogof:

'Abracadabra!
 Ni dd'wedaf i ragor.
 'Abracadabra!
 Mae'r ogof yn agor.

'Abracadabra!
 Mewn munud neu ddau
 'Abracadabra!
 Mae'r ogof yn cau.

Ar ôl gwrandio ar y stori, dywedwch hyn:

- ELA: Dyma ti, Aladin!
ALADIN: Ela! 'Rwyf i wedi bod yn chwilio amdanat ti. Ble'r wyt ti wedi bod drwy'r dydd?
ELA: 'Rwyf i wedi bod yn y dref, yn chwilio amdanat ti.
ALADIN: Nid wyf i wedi bod yn chwarae yn y stryd heddiw.
ELA: Ble'r wyt ti wedi bod?
ALADIN: 'Rwyf i wedi bod yn y tŷ. Mae fy ewythr wedi bod yn ein tŷ ni heddiw.
ELA: Beth yw enw dy ewythr?
ALADIN: Abanasar.
ELA: Abanasar? Ond swynwr yw Abanasar.
ALADIN: Ie, mae ef yn ddyn clyfar iawn.
ELA: Swynwr drwg yw ef, Aladin.
ALADIN: Beth? 'Wyt ti'n siŵr, Ela?
ELA: Ydwyf, Aladin. Dyn drwg yw Abanasar.
ALADIN: Ond mae ef yn mynd i wneud Mam a fi'n gyfoethog.
ELA: Sut?
ALADIN: Mae ogof yn y mynydd, ac yn yr ogof mae llawer o aur ac arian a gemau. Ond paid â dweud wrth neb.
ELA: Beth arall sydd yn yr ogof?
ALADIN: Lamp fach.
ELA: Pwy sy'n mynd i mewn i'r ogof?
ALADIN: Fi. Mae Abanasar yn mynd i gael y lamp, ac 'rwyf i a Mam yn mynd i gael yr aur a'r arian a'r gemau. O, fe fyddwn ni'n gyfoethog, Ela!
ELA: Dyn drwg yw Abanasar. Paid â mynd i mewn i'r ogof, Aladin.



ELA, MERCH Y BRENIN



ALADIN A'R FODRWY. 'WELWCH CHI'R LAMP RYFEDD?

DARLLEDIAD 9-19 TACHWEDD

3: Y practis olaf

Dyma'r *practis olaf*, ac yn awr mae'r actorion yn gwybod eu gwaith yn well. Maent yn gwybod eu gwaith yn dda iawn. Mae'r actorion wedi dysgu'r geiriau a'r caneuon. Ar ôl y *practis* fe fydd y cwmni'n barod i berfformio'r pantomeim. Fe fydd y *neuadd yn llawn*. Ni fydd un *sedd* yn wag.

GEIRFA:

practis olaf—last practice
neuadd—hall
yn llawn—full
sedd—seat
sŵn—sound
lamp ryfedd—strange lamp
Beth a fynni di?—What do you wish?
Dwed!—Say!

Cwestiwn ac ateb:

A yw'r *neuadd yn llawn*? Ydyw, mae hi'n llawn.
A fydd y *neuadd yn llawn*? Bydd, fe fydd hi'n llawn.

CÂN ALADIN AC ELA

CYFLYM Ela yn canu

{ | d : m | s . s : s . s | s . s : s . s }
 Ble mae'r bach - gen hardd a wel - ais i fan

{ | s : m | d : m | r : - | t, : r | d : - | d : m }
 draw, O, Ble mae ef? Ble mae ef? 'Roedd yn

{ | s . s : s . s | s . s : s . s | s : m | d : m }
 car - io lamp fach ry - fedd yn ei law, O, Ble mae

ARAF Aladin yn canu

{ | r : - | t, : r | d : - | - : - | l : f | - : l . l }
 ef? Ble mae ef? El - a El - a,

{ | s : m | - : s . s | f : - : s | l : t | d' : - | - : - }
 El - a El - a, El - a, El - a fach!

{ | l : f | - : l . l | s : m | - : s . s | f : - : m | f : r | d : - || }
 El - a El - a, El - a El - a, El - a, El - a fach!

- 2: Dyna sŵn ei lais yn galw arnaf, ie,
 Dyna fe, dyna fe.
 Dyna sŵn ei lais yn galw arnaf, ie,
 Dyna fe, dyna fe.
- 3: O, ble'r wyt ti 'nawr, Aladin, dywed imi
 Ble'r wyt ti? Ble'r wyt ti?
 O, ble'r wyt ti 'nawr, Aladin, dywed imi
 Ble'r wyt ti? Ble'r wyt ti?
- 4: 'Rwy'n dy weld di'n cario lamp fach ryfedd 'nawr, O,
 Tyrd yn ôl, tyrd yn ôl;
 Ac mae'r swynwr wedi cau'r hen ogof fawr, O,
 Tyrd yn ôl, tyrd yn ôl.

Dyma eiriau Ysbryd y Fodrwy:

Ysbryd y fodrwy ydwyf i,
 Yma i roi help i ti.
 Beth a fynni di? Un, dau, tri!
 Dwed, dwed, dwed!

Dyma eiriau Ysbryd y Lamp:

Abracadabra!
 Ysbryd y lamp wyf i,
 A gaf i dy helpu di?
 Abracadabra!
 Dwed, Abanasar,
 Y swynwr mawr,
 Dwed di yn awr
 A gaf i dy helpu di?
 Abracadabra.

Dyma eiriau y dyn sy'n gwerthu lampau:

Lampau newydd am hen lampau!
 Dewch â'ch lampau allan i'r stryd.
 Lampau newydd am hen lampau!
 Y lampau gorau yn y byd.



ALADIN AC ELA

DARLLEIDIAD 10-26 TACHWEDD

4: Noswaith y Perfformiad

Mae noswaith y perfformiad wedi dod. Mae'r neuadd yn llawn. Mae'r gynulleidfa'n siarad, ond fe fydd y llen yn codi mewn munud, ac fe fydd y cwmni'n perfformio pantomeim Aladin ar y llwyfan. Fe fydd y gynulleidfa'n ddistaw, yn gwrando ar y miwsig, ac yn gwrando ar y bobl yn canu ac yn siarad.

GEIRFA:

cynulleidfa—*audience*
llen—*curtain*
llwyfan—*stage*

DARLLEIDIAD 11-3 RHAGFYR

Stori'r Nadolig

Mae'r bugeiliaid ar y mynydd. Maent yn bugeilio eu defaid yn y nos. Yn sydyn, mae angel yn dod atynt, ac mae ofn arnynt.

Ond mae'r angel yn dweud wrth y bugeiliaid: Nac ofnwch. Ewch i dref Bethlehem. Mae Iesu Grist wedi ei eni. Mae Ef yno, mewn stabl, gyda Mair, Ei fam. Fe welwch y baban yn gorwedd mewn preseb yn y stabl.

Ac mae'r bugeiliaid yn dod i Fethlehem, ac yn gweld y Baban.

Dyna stori'r Nadolig—stori geni Iesu Grist yn y preseb, a'r bobl yn dod i Fethlehem i weld y Baban.

Mae tri gŵr doeth yn dod i weld Iesu Grist—tri gŵr doeth o'r Dwyrain. Maent yn gweld seren fawr yn disgleirio, ac maent yn dilyn y seren i Fethlehem. Yno, mae Iesu Grist wedi ei eni.

GEIRFA:

bugeiliaid—*shepherds*; un bugail, llawer o fugeiliaid
bugeilio—*to watch*
defaid—*sheep*; un ddafad, llawer o ddefaid
Mae'r bugeiliaid yn bugeilio eu defaid.
yn sydyn—*suddenly*
Mae ofn arnynt—*They are afraid*.
wedi ei eni—*born*; preseb—*manger*
tri gŵr doeth—*three wise men*
seren—*star*; disgleirio—*to shine*; dilyn—*to follow*



Y BUGEILIAID YN GWELD Y BABAN

DAWEL NOS

|| s : - : l : s | m : - : - | s : - : l : s | m : - : - | r' : - : r' | t : - : - ||

Daw - el nos, sanc-taidd yw'r nos, Cwsg a gerdd

|| d' : - : d' | s : - : - | l : - : l | d' : t : l | s : - : l : s | m : - : - ||

waun a rhos, Eto - o'n eff-ro mae Jo-seff a Mair,

|| l : - : l | d' : t : l | s : - : l : s | m : - : - | r' : - : r' | l' : r' : t ||

Fab - an an-nwyl yng-hwsg yn y gwair, Cwsg mewngwyn-fyd a

|| d' : - : - | m' : - : - | d' : s : m | s : f : r | d : - : - | l : - : - ||

hedd, Cwsg mewngwyn-fyd a hedd.

- 2: Dawel nos, sanctaidd yw'r nos,
Wele fry seren dlos.
Daw'r bugeiliaid a'r doethion i'r drws,
Faban annwyl, yr wyt Ti mor dlws,
Cwsg mewngwynfyd a hedd,
Cwsg mewngwynfyd a hedd.

Y TAIR LLONG

YN GYFLYM
{s, | d :- :d | r :- :m | s :- :m | r :- :f }

Mi wel - ais dair o long - au gwyn, Y
{m :- :d | d :- :m | r :- :t, | s, :- :s, | d :- :d | r :- :m }

bo - re hwn, y bo - re hwn, Mi wel - ais dair o
{s :- :m | r :- :f | m :- :d | d :- :r :m | r :- :d :- :||

long - au gwyn, Ar fo - re dydd Na - do - lig.

- 2: Pa beth oedd yn y llongau gwyn,
Y bore hwn, y bore hwn,
Pa beth oedd yn y llongau gwyn
Ar fore dydd Nadolig?
- 3: 'Roedd Iesu Grist a Mair, ei fam,
Y bore hwn, y bore hwn;
'Roedd Iesu Grist a Mair, ei fam,
Ar fore dydd Nadolig.
- 4: Ble'r aeth y tair o longau gwyn
Y bore hwn, y bore hwn,
Ble'r aeth y tair o longau gwyn
Ar fore dydd Nadolig?
- 5: O, mynd ymlaen i Fethlehem.
- 6: Bydd cân y clychau drwy'r holl fyd.
- 7: Bydd cân angylion drwy'r holl nef.
- 8: Ac felly, llawen fyddwn oll.



Y TRI GŴR DOETH O'R DWYRAIN

CYDNABYDDIAETH


Yr ydym yn ddyledus i'r rhai a ganlyn am ganiatâd i ddefnyddio'r darluniau a'r caneuon:

- C. WALTER HODGES am y darluniau.
HYWEL TURNER am y cloriau.
MRL HUGHES A'I FAB am Y Band, allan o *Alawon Trysor o Gân*, gan Edgar Phillips, tud. 12.
MISS MAUD KARPELES am yr alaw i Y Tair Llong, allan o *Oxford Book of Carols*, tud. 26.
YR ATHRO T. H. PARRY-WILLIAMS am y geiriau i Dawel Nos, tud. 25.
MRS. AMY PARRY-WILLIAMS am y geiriau i Haul yr Hydref, tud. 4; Hwyllo, tud. 8; Yr Asyn a fu farw (penillion 2, 3, 4, 5), tud. 14; Cân y Widw Twanci, tud. 16; Cân Abanasar, tud. 19; Cân Aladin ac Ela, tud. 22; Y Tair Llong, tud. 26.

*Published by the British Broadcasting Corporation
35, Marylebone High Street London W.1
Printed by William Lewis (Printers) Ltd Penarth Road Cardiff
No. 2542*



SECOND STAGES
IN WELSH



BBC BROADCASTS TO SCHOOLS

AUTUMN TERM 1952

PRICE 6D

SECOND STAGES IN WELSH



*A series of broadcasts provided by the BBC for
the School Broadcasting Council
for Wales*

WELSH HOME SERVICE (340.1 metres)

Thursdays, 11.40–12.00

25 September–4 December



LLYWELYN YN YSTAFELL Y GOLYGYDD



Y BLAENWR YN GORWEDD AR Y GWELY



LLYWELYN CARADOG JONES

DARLLEDIAD 1–25 MEDI

1: *Ar goll*

Gohebydd yw Llywelyn Caradog Jones. Mae ef yn ohebydd i'r papur *enwog Yr Adlais*. Fe gewch glywed pum stori am y gohebydd. Ym mhob stori mae Llywelyn yn ystafell y golygydd. Mae ef yn gofyn i'r golygydd beth yw'r gwaith am y dydd. Rhaid i Llywelyn gael stori *ddiddorol* i'r papur.

Dyma'r stori gyntaf:

LLEW: Bore da, syr.

GOLYGYDD: Bore da, Llew.

LLEW: Beth yw'r gwaith heddiw, syr?

GOLYGYDD: Ysgrifennwch stori imi—

LLEW: Stori am beth, syr?

GOLYGYDD: Ysgrifennwch stori imi—stori *ddiddorol* cofiwch!—am dim *peidroed* y dref. Gofynnwch sut mae'r chwaraewyr yn byw ac yn *ymarfer*. Ydyn' hw'n mynd i *ennill* y cwpan ddydd Sadwrn nesaf?

GEIRFA:

ar goll—lost; gohebydd—reporter
 enwog—famous; golygydd—editor
 diddorol—interesting; ymarfer—to practise, to train
 chwilio am—to look for; cadach poced—pocket handkerchief
 blaenwr—forward; blaenwr canol—centre forward
 gorwedd—to lie; ennill—to win; colli—to lose

SOSBAN FACH

Mae bys Me-ri Ann we-di bri-fo, A
 Daf-ydd y gwas ddim yn iach, Mae'r
 ba-ban yn y crud yn cri-o, A'r
 gath we-di sgram-o John-nie bach. Sos-ban fach yn
 ber-wi ar y tân, Sos-ban fach yn ber-wi ar y tân, A'r
 gath we-di sgramo John-nie bach.

2: Mae bys Meri Ann wedi gwella,
 A Dafydd y gwas eto'n iach;
 Mae'r baban yn y crud yn cysgu,
 A'r gath yn rhoi bwyd i'r cathod bach.
 Cytgan—Sosban fach yn berwi ar y tân, etc.



PWY SY'N SGORIO'R GÔL?

Ar ôl gwranddo ar y stori atebwch y cwestiynau hyn:

- 1: Beth yw enw'r gohebydd?
- 2: Beth yw enw ei chwaer?
- 3: Ble'r oedd y blaenwr canol?
- 4: A oedd ef yn cysgu?
- 5: Pwy oedd yn sgorio'r gôl?

DARLLEDIAD 2-2 HYDREF

2: Yn yr Hen Blas

LLEW: Bore da, syr.
 GOLYGYDD: Bore da, Llew.
 LLEW: Beth yw'r gwaith heddiw, syr?
 GOLYGYDD: Ysgrifennwch stori imi—
 LLEW: Stori am beth, syr?
 GOLYGYDD: Ysgrifennwch stori—stori ddiddorol cofiwch!—
 am yr Hen Blas. A oes ysbryd yno? Arhoswch
 dros y nos yn yr Hen Blas.

GEIRFA:

plas—mansion; adfeilion—ruins
 ysbryd—ghost; un ysbryd, llawer o ysbrydion
 tawel—quiet; lluwch—dust; llygod—rats
 olion traed—footprints; olion bysedd—fingerprints
 cuddio—to hide; lladron—thieves



MEWN YSTAFELL YN YR HEN BLAS

Cwestiwn ac ateb:

A oes arnat ti ofn? Nac oes, nid oes arnaf i ofn.
A oes arnat ti ofn? Oes, mae arnaf i ofn.

Darllenwch hyn, ar ôl gwrando ar y stori:

GWEN: Mae'r hen blas yma'n dawel.
LLEW: Ydyw, wrth gwrs. Nid oes neb yn byw yma.
GWEN: Llew! Mae arnaf i ofn! A oes arnat ti ofn?
LLEW: Nac oes! Nid oes arnaf i ofn, Gwen fach.
GWEN (*yn sydyn*): Ust! Dyna sŵn! Gwrando!
LLEW: Twt! Nid oes neb yma.
GWEN: Sh! Dyna'r sŵn eto. Llew! Mae rhywun ar y llofft.
Mae rhywun yn cerdded ar y llofft. Gwrando!
LLEW: *Llygod yn rhedeg, yn siŵr iti.*
GWEN: Nage! Sŵn traed dynion ydyw. Gwrando eto.
LLEW: Ie'n wir! Tyrd Gwen.

DARLLEDIAD 3-9 HYDREF

3: *Ar yr heol fawr*

LLEW: Bore da, syr.
GOLYGYDD: Bore da, Llew.
LLEW: Beth yw'r gwaith heddiw, syr?
GOLYGYDD: Ysgrifennwch stori imi—

LLEW: Stori am beth, syr?
GOLYGYDD: Ysgrifennwch stori imi—stori ddiddorol cofiwch!—
am waith *gyrrwr lorri* sy'n mynd o Abertawe i
Lundain drwy'r nos. A ydyw'r gwaith yn *galed*?
A ydyw'r gwaith yn *berylus*?

GEIRFA:
gyrrwr lorri—*lorry driver*
taith—*journey*; *pen y daith*—*journey's end*
caled—*hard*; *perylus*—*dangerous*
nwyddau—*goods*
bwrw glaw—*raining*
cael—*to get, obtain*
llwyddo—*to succeed*

Dysgwch hyn:

O Gaergybi i Gaerdydd
O dŷ i dŷ
O ddrws i ddrws
A gaf i ddod gyda chwi i Gaerdydd? Cewch.
A gaf i fynd adref os gwelwch yn dda? Na chewch.

Ar ôl gwrando ar y stori, llenwch y bylchau:

1: A gaf i — gyda chwi? —
2: A — gwaith y gyrrwr yn —?
3: Yr oedd y lorri yn mynd o Abertawe i —.
4: Mae'r postmon yn — o — i —.



GYRRWR Y LORRI YN SIARAD Â LLEW A GWEN

AR HYD Y NOS

{d :-t:l: d | r :-d lt: s, | l: -lt: -t: | d: -| -: }

Dis-taw, dis-taw yd yw'r aw-el, Ar hyd y nos.

{d :-t:l: d | r :-d lt: s, | l: -lt: -t: | d: -| -: }

Dail y coed i gyd syndaw-el, Ar hyd y nos.

{f :m lf: s | l: s lf: m | f :m lr: d | m: r | d: t: }

Clir yw no-dau'r bendy-llu-an, Sydd ar ben y tŵr yn hwt-ian,

{d :-t:l: d | r :-d lt: s, | l: -lt: -t: | d: -| -: }

Wrth ei bodd yn a - ros a - llan, Ar hyd y nos.

- 2: Sŵn nid oes i'w glywed heno,
Ar hyd y nos.
Plant y pentref oll sy'n huno,
Ar hyd y nos.
Anifeiliaid yn y meysydd,
Adar mân ym mrigau'r coedydd,
Cysgant hwy yn llonydd, llonydd,
Ar hyd y nos.



GWRANDO AR Y DDAU DDYN YN SIARAD



CERDDED AR LAN Y GAMLAS

DARLLEDIAD 4-16 HYDREF

4: Yr hen gamlas

- LLEW: Bore da, syr.
GOLYGYDD: Bore da, Llew.
LLEW: Beth yw'r gwaith heddiw, syr?
GOLYGYDD: Ysgrifennwch stori imi—
LLEW: Stori am beth, syr?
GOLYGYDD: Ysgrifennwch stori—stori ddiddorol cofiwch!—
am yr hen gamlas sydd yn mynd o dan y dref allan
i'r dociau. Cerddwch drwy'r twnel ac allan i'r
dociau.

GEIRFA:

- fflynyddoedd yn ôl—years ago
camlas—canal
glan y gamlas—canal embankment
dilyn—to follow
llanw, llenwi—to fill
masnach—trade
marchnad—market
llwyth—load; un llwyth, llawer o lwythi
llwytho—to load
twyllo—to deceive



'WELWCH CHI'R DYNION YN CARIO RHYWBETH?

Atebwch y cwestiynau hyn:

- 1: Sut mae'r hen gamlas yn mynd i'r dociau?
- 2: A oedd cwch ar y gamlas?
- 3: O ble'r oedd y cwch yn dod?
- 4: I ble'r oedd yn mynd?
- 5: Beth oedd yn y cwch?

DARLLEDIAD 5-23 HYDREF

5: Yn yr Amgueddfa

- LLEW: Bore da, syr.
 GOLYGYDD: Bore da, Llew.
 LLEW: Beth yw'r gwaith heddiw, syr?
 GOLYGYDD: Ysgrifennwch stori imi—
 LLEW: Stori am beth, syr?
 GOLYGYDD: Ysgrifennwch stori—stori ddiddorol cofiwch!—
 am y llwyth o hen gelfi sy'n dod i'r Amgueddfa
 Genedlaethol heddiw. Bydd y llwyth yn cyrraedd
 am ddeg o'r gloch.

GEIRFA:

Amgueddfa Genedlaethol Cymru—*National Museum of Wales*
 ceidwad—*keeper*; celfi—*furniture*; fen gelfi—*furniture van*
 gwerthfawr—*valuable*; diflannu—*to disappear*
 holi—*to inquire*; cyrraedd—*to reach, arrive*

TÓN Y MELINYDD

{:l |d':-:d'lr':-:t |l:l:-l:-: :l |d':-:d'lr':-:t }

Mae gen-nyf dŷ cy-sur-us — A mel-in new-ydd

{l:-:l : :l |d':-:d'lr':-:t |l:-:t |d':-:l }

ebon, A thair o war-theg blith-ion Yn

{s:-:l |s:-:fe |m:-:l:-: : |m:m:m:m:r }

por-i ar y fron; — 'Wel-i di, 'wel-i di,

{d:-:r |m:-: : |m:m:m:m:r |d:-:r |m:-: : }

Mar-i fach, 'Wel-i di, 'wel-i di, Mar-i fach,

{m:m:m |d':-:t |l:-:l |se:-: : |l:-:l : || }

'Wel-i di, Mar-i an nwyll.

- 2: Mae gennyf gwpwrdd cornel
 Yn llawn o lestri te,
 A dreser yn y gegin,
 A phopeth yn ei le.
- 3: Mae gennyf drol a cheffyl,
 A merlyn bychan twt,
 A deg o ddefaid tewion,
 A mochyn yn y cwt!



AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU



CARIO BOCS O'R FEN GELFI

Darllenwch y darn hwn:

Ym mhob stori yr oedd y golygydd yn gofyn i Llywelyn Caradog Jones am stori ddiddorol, ac yn wir, yr oedd Llew yn llwyddo i gael stori ddiddorol iawn bob tro. Ond yr oedd yn lwcus i gael help ei chwaer! Mae stori gan Llew yn *Yr Adlais* bob wythnos, ac mae pawb yng Nghymru—o Gaerdybi i Gaerdydd—yn edrych ymlaen at ddarllen storïau Llywelyn Caradog Jones.

MERCH Y TWRNAI

DARLLEDIAD 6-30 HYDREF

1: *Yn y tywyllwch*

Twrnai yw Syr Richard Puw. Trwy ei waith ef mae dau ddyn yn mynd i'r *carchar*. Enwau'r ddau ddyn yw Nic Lawchwith a Ben y Cawr. Ar ôl dod allan o'r *carchar* mae Nic a Ben yn mynd i *ddial* ar Syr Richard. Mae Capten Crafell, capten ar *long lo*, yn helpu Nic a Ben.

Mae gan Syr Richard ferch o'r enw Morfudd. Mae hi'n bymtheg oed. Un nos, mae Syr Richard a Morfudd yn eistedd o flaen y tân. Dyma garreg yn dod trwy'r ffenestr. Mae *neges* gyda'r garreg, a'r *neges* yw 'Yr ydym yn dod i *ddial* . . . heno.' Mae'r golau yn *diffodd*.

GEIRFA:

tywyllwch—darkness
 twrnai—attorney, lawyer
 carchar—prison
 dial—revenge, to avenge
 llong lo—coal boat
 neges—message
 diffodd—to extinguish, to go out
 ar fwrdd—on deck
 gofalus—careful
 pum mil o bunnoedd—five thousand pounds

Dysgwch hyn:

A oes tân yn y grat?
 Nac oes, mae'r tân wedi diffodd.

Ar ôl gwranddo ar y stori, atebwch y cwestiynau hyn:

- 1: Beth yw gwaith Syr Richard?
- 2: Pwy oedd yn y carchar?
- 3: Beth yw enw capten y llong lo?
- 4: Beth yw oed Morfudd?
- 5: Beth yw'r neges sy'n dod trwy'r ffenestr?



SYR RICHARD YN GWRANDO AR MORFUDD YN CANU



CAPTEN CRAFELL, NIC, A BEN YN Y LLONG LO

SUO GÂN

{ | ḍ : - . r | m . s : - | r : - . d | m . r : - | ḍ : - . r | m . s : - | }
 Hu - na blentyn ar fymyn-wes, Clyd a chynnes
 { | r : m | ḍ : - | ḍ : - . r | m . s : - | r : - . d | m . r : - | }
 yd - yw hon; Brei - chiau mamsy'n dynn am-da-nat,
 { | ḍ : - . r | m . s : - | r : m | ḍ : - | m : - . f | s . m : - | }
 Car - iad mamsy dan fy mron. Ni chaiff dim am -
 { | l : - . f | s . m : - | m : - . f | s : m | ḍ' : - . l | s : - | }
 ha - ru'thgyntun, Ni wna un-dyn â thi gam;
 { | ḍ : - . r | m . s : - | r : - . d | m . r : | ḍ : - . r | m . s : - | r : m | ḍ : - | }
 Hu-na'n da-wel an-nwyl blentyn, Hu-na'n fwyn ar frondy fam.



SYR RICHARD YN SIARAD A'R INSPECTOR

DARLLEDIAD 7-6 TACHWEDD

2: *Pum mil i'w dalu*

- INSPECTOR: Hylo! Hylo! Syr Richard Puw! Beth ydych chi'n ei wneud yma? 'Rydych chi'n edrych yn *drist* iawn.
- SYR RICHARD: Ydwyf, 'rwy'n *drist*. Mae fy merch wedi *diflannu*!
- INSPECTOR: Pwy sydd wedi diflannu?
- SYR RICHARD: Fy merch, Morfudd. 'Ydych chi'n cofio Nic a Ben?
- INSPECTOR: Ydwyf. Maen' hw wedi dod allan o'r carchar.
- SYR RICHARD: Ydyn', maen' hw allan o'r carchar 'nawr, a neithiwr 'roedd y ddau yn fy nhŷ. Maen' hw wedi mynd â Morfudd gyda nhw!
- INSPECTOR: Amhosibl! Ble maen' hw wedi mynd â hi?
- SYR RICHARD: 'Dwyf fi ddim yn gwybod. Ond mae'n rhaid i mi dalu pum mil cyn cael fy merch yn ôl!
- INSPECTOR: Pum mil o bunnoedd!

GEIRFA:

trist-sad; *diflannu*-to disappear
niwed-harm; *gwyllo*-to watch; *dianc*-to escape
cadw mewn golwg-to keep in sight
papurau newydd-newspapers; *gwerthu*-to sell

PE CAWN I HON

{ :d.r | m.n:m :r.d | t.r:r :d.r | m.l:s :-f }
 Pe_ cawni hon yn_ eidd-o'i mi, O_ ga-lon yn fy
 nghar-u; Ni_ fyn-nwnddim o'i_ chyf-oeth hi, Rhag
 ofn i'm serch glae-ar-u. Mae rhywbeth yn ei
 gwisg a'i gwedd, Ac_ yn ei hag - wedd hy-gar, Rhaid
 idd-i fod yn_ ei-ddo fi, Tra bydd-om ar y ddae-ar.



'WELWCH CHI BEN A SYR RICHARD?

Dodwch un o'r geiriau hyn ym mhob bwlch: cerdded, rhoi, ysgwydd, law (llaw), barsel (parsel), papurau newydd, gornel (cornel).

Mae'r dyn sydd yn gwerthu — yn sefyll ar — y stryd. Mae ganddo fag papurau ar ei — ac mae papurau ganddo yn ei —. Ond ust! Dacw ddyn arall yn — tuag ato. Beth sydd gan y dyn hwn yn ei law ef? Mae ganddo — bach. Mae ef yn —'r parsel i'r dyn sydd yn gwerthu'r papurau newydd.

DARLLEDIAD 8-13 TACHWEDD

3: *Yn y Dafarn Goch*

Ben yw'r dyn sydd yn gwerthu papurau newydd ar gornel Heol y Maer. Ar ôl cael y parsel gan Syr Richard Puw, mae Ben yn mynd i mewn i'r fen sydd yn sefyll wrth y pafin. Mae'n *gyrru* i ffwrdd. Ond dacw ddyn yn rhedeg at y fen ac yn neidio i mewn. Nid yw'r dyn hwn. Mae ef wedi gweld y parsel yn *newid* dwylo. Hefyd mae ef wedi gweld yr Inspector a'r Sarjant. Rhaid iddo ddweud wrth Ben.

'Tr Dafarn Goch!' medd Nic wrth Ben; 'rhaid inni ddianc ar unwaith! Mae'r traed mawr wedi dy weld di!'

Beth mae'r Inspector a'r Sarjant yn ei wneud, tybed?

GEIRFA:

gyrru—to drive; *newid*—to change
trechu—to overcome; *rhwystro*—to hinder, to prevent
croes goch—red cross; *darn o bren*—a piece of wood



YN Y DAFARN GOCH. SAM SLEI YN SIARAD

Y PREN AR Y BRYN

{:l .,l |d':-:t |l :-:- |d':-:t |l :-: .l }

1. Ar y bryn 'roedd pren, O bren braf! Y
 {||n' .n',n':r' .r' | d' .d',d':t ,t .t :l ,l .l }
 pren ar y bryn, a'r bryn ar y ddae-ar a'r ddae-ar ar
 {||n' :-: d' .,r' |n' :-: r' .,d' |t :-: l :d' ,d' .t |l :-: ||
 ddim. Ffeind a braf oedd y bryn lle ty-foddy pren.
 YN ARAF
 {:l .,l |d':-:t |l :-: |d':-:t |l :-: .l }

2. Ar y pren daeth cainc, O gainc braf! Y
 YN GYFLYM
 {||n' .n',n':r' .r' |d' .d',d':t .t }
 gainc ar y pren, y pren ar y bryn, y
 {||l .d',d':t ,t .t :l ,l .l |n' :-: d' .,r' }
 bryn ar y ddae-ar, a'r ddae-ar ar ddim. Ffeind a
 {||n' :-: :r' .,d' |t :-: l :d' ,d' .t |l :-: ||
 braf oedd y bryn lle ty-foddy pren.
 % YN ARAF
 {:l .,l |d'.d':-:t .t |l .l :-: |d' :-: :t .t }
 O'r plu daeth gwe-ly O we-ly
 {||l :-: :l | n',n',n':r',r'.r' |d',d'.d',d':t .t }
 braf! Y gwe-ly o'r plu, y plu o'r cyw, y
 * {||l .d',d':t .t || l .d',d':t ,t .t :l ,l .l }
 Cyw o'r wy, yr bryn ar y ddae-ar a'r ddae-ar ar

2. Wy o'r nyth,— 4. Gainc ar y pren,—
 3. Nyth ar y gainc,— 5. Pren ar y bryn,— D.S.

{||n' :-: d' .,r' |n' :-: r' .,d' |t :-: l :d' ,d' .t |l :-: ||
 ddim. Ffeind a braf oedd y bryn lle ty-foddy pren.

- 2: Ar y pren daeth cainc—O, gainc braf!
 Y gainc ar y pren, y pren ar y bryn,
 Y bryn ar y ddae-ar,
 A'r ddae-ar ar ddim.
- 3: Ar y gainc daeth nyth—O, nyth braf!
 Y nyth ar y gainc, y gainc ar y pren,
 Y pren ar y bryn,
 Y bryn ar y ddae-ar,
 A'r ddae-ar ar ddim.
- 4: O'r nyth daeth wy—O, wy braf!
 Yr wy o'r nyth, y nyth ar y gainc,
 Y gainc ar y pren, y pren ar y bryn,
 Y bryn ar y ddae-ar,
 A'r ddae-ar ar ddim.
- 5: O'r wy daeth cyw—O, gyw braf!
 Y cyw o'r wy, yr wy o'r nyth,
 Y nyth ar y gainc, y gainc ar y pren,
 Y pren ar y bryn,
 Y bryn ar y ddae-ar,
 A'r ddae-ar ar ddim.
- 6: Ar y cyw daeth plu—O, blu braf!
 Y plu o'r cyw, y cyw o'r wy,
 Yr wy o'r nyth, y nyth ar y gainc,
 Y gainc ar y pren, y pren ar y bryn,
 Y bryn ar y ddae-ar,
 A'r ddae-ar ar ddim.
- 7: O'r plu daeth gwely—O, wely braf!
 Y gwely o'r plu, y plu o'r cyw,
 Y cyw o'r wy, yr wy o'r nyth,
 Y nyth ar y gainc, y gainc ar y pren,
 Y pren ar y bryn,
 Y bryn ar y ddae-ar,
 A'r ddae-ar ar ddim.



GWNEUD Y FEN YN 'AMBIWLANS'

Dodwch y ferf briodol yn y brawddegau hyn: sydd, yw, oes, mae.

- 1: Ben — yn gwerthu papurau newydd.
- 2: — Nic yn neidio i mewn i'r fen.
- 3: Nid — neb yn y fen yn awr.
- 4: Pwy —'r dyn ar y pafin? Syr Richard — ef.

DARLLEDIAD 9-20 TACHWEDD

4: *Y Ras Fawr*

Ar ôl trechu'r ddau blismon, mae Nic a Ben yn dianc unwaith eto. Maent yn gwneud y fen yn 'ambiwllans.' Yna maent yn gyrru'n wyllt i'r dociau. Mae hi'n dywyll, ac yn bwrw glaw. Dyma Nic a Ben yn gweld rhywbeth *ar draws* yr heol. Rhaid iddynt fynd ar *heol arall*.

Mae'r Inspector a'r Sarjant wedi *ymryddhau*, ac maent yn mynd ar ôl Nic a Ben. Beth sydd yn *digwydd* i'r 'ambiwllans'? Beth sydd yn digwydd i Nic a Ben?

GEIRFA:

gwyllt—*wild*; yn wyllt—*wildly*
 ar draws—*across*; heol arall—*another road*
 ymryddhau—*to free oneself*; digwydd—*to happen*
 clwyfo—*to wound, to injure*; gwir—*truth*
 hwylio—*to sail*; y llanw—*the tide*



BWS AR DRAWS YR HEOL

Dodwch y rhannau cywir gyda'i gilydd i wneud brawddegau:

- | | |
|-----------------------------------|---------------------------|
| 1: Mac Nic a Ben yn gyrru'n wyllt | : bwrw glaw. |
| 2: Rhaid inni fynd ar | : yn dod tuag atom. |
| 3: Dacw ambiwlans | : heol arall. |
| 4: Mae hi'n dechrau | : yn hwylio gyda'r llanw. |
| 5: Bydd y llong | : i'r dociau. |



BETH SYDD YN DIGWYDD I'R 'AMBIWLANS'?



MORFUDD YN GARCHAROR AR FWRDD Y 'SARFF'

DARLLEDIAD 10-27 TACHWEDD

5: *Dal y dynion drwg*

Mae Morfudd yn *garcharor* ar *fwrdd* y *Sarff*, llong lo Capten Crafell. Bydd y llong yn hwylio gyda'r llanw mewn hanner awr. Ond nid yw Nic na Ben wedi cyrraedd, ac nid yw'r Capten yn gwybod beth i'w wneud â Morfudd. Yn sydyn, dyna gar yn aros ar y *cei* wrth y *Sarff*. Pwy sydd yn y car? Mae ofn ar y Capten!

GEIRFA:

carcharor-prisoner
cei-quay
 mewn pryd-*in time*
 croeso-welcome

Dodwch un o'r geiriau hyn yn y brawddegau, ac yna atebwch y cwestiynau: Ble, I ble, A, Beth, Pa bryd.

- 1: — sydd yn digwydd i Ben?
- 2: — mae Morfudd yn garcharor?
- 3: — ydyw'r polis yn dal Nic?
- 4: — mae Nic yn mynd ar gefn y beisicl?
- 5: — mae'r llong yn hwylio?

Darllenwch y paragraff hwn:

Dau ddyn drwg yw Nic Lawchwith a Ben y Cawr. Ar ôl dod allan o'r carchar, maent yn dial ar Syr Richard Puw, y twrnai. Un nos, maent yn mynd i dŷ Syr Richard, ac yna maent yn mynd â Morfudd, merch Syr Richard, gyda nhw. Cyn cael ei ferch yn ôl, rhaid i'r twrnai dalu pum mil o bunnoedd i'r dynion drwg. Rhaid iddo dalu'r arian i'r dyn sydd yn gwerthu papurau newydd ar gornel Heol y Maer. Ar ôl cael yr arian, mae Nic a Ben yn ceisio dianc o'r wlad mewn llong lo. Enw capten y llong lo yw Capten Crafell. Dyn drwg yw ef hefyd, ac mae'n ffrind i Nic a Ben. Ond mae'r polis yn dod mewn pryd, ac mae Nic a Ben yn cael eu dal.

Galw i gof

DARLLEDIAD 11-4 RHAGFYR
 (Rhai o eiriau a chaneuon y tymor)

Nid oes stori heddiw. Nid oes neb yn dial; nid oes neb yn diflannu! Ac nid oes neb yn mynd i'r carchar.

Beth sydd heddiw, ynteu? Wel, rhaid i *chi* weithio, blant; rhaid i *chi* weithio'n galed. Rhaid i *chi* ganu, ateb cwestiynau, ac ysgrifennu ar bapur.

A yw'r pamffled ar y ddesg? A oes gennych *chi* bensil a phapur? Nawr te, byddwch yn barod i weithio!

CYDNABYDDIAETH

Yr ydym yn ddyledus i'r rhai a ganlyn am ganiatâd i ddefnyddio'r darluniau a'r caneuon:

COLIN GARD ALLEN am y darluniau.

HYWEL TURNER am y cloriau.

YR ATHRO T. H. PARRY-WILLIAMS am y geiriau i Ar Hyd y Nos, tud. 8.

MRI. HUGHES A'I FAB am Y Pren ar y Bryn, allan o *Alawon Gwerin Cymru*, Rhan I, trefniant J. Lloyd Williams, tud. 18.

GWASG PRIFYSGOL CYMRU am yr alaw Suo Gân, allan o *Llyfr Canu Newydd*, Rhan II, tud. 14.

BOOSEY AND HAWKES, LTD., am y geiriau i Suo Gân, tud. 14.

